| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, SIR GAERFYRDDIN 2023** |
| | Cystadleuaeth 128 – Llefaru Unigol Bl.7, 8 a 9 |
| | **Amazonia – Einir Jones** |

Yr egin gwyrdd
a ffurfiodd,
holltodd hadau,
gafaelodd yn agennau’r ddaear
a gwthio drwyddynt.

Rhisgl a changen.
Brigau a dail
yn rhuthro grynu
am gyfeiriad yr haul.

Daeth mwsog i wisgo,
rhedyn,
tegeiriannau yn emau amryliw,
glöynnod i siglo’n
glust-dlysau llachar.

Sbloet parti’r canrifoedd
yn dawel
dan wyrdd y to.

Ond ar ganol y gyfeddach
wele
lif.

Sgrechian yr adar
yn ingoedd gloyw
yn y pellteroedd.

Boncyffion
yn pydru, gan staenio
carped y fforest,

ac yn yr anialwch
lle bu’r perffeithrwydd
yn ddiniweidrwydd bywiog

peidio
a wnaeth anadliadau’r coed.